# Y Rhedwr Anhysbys!


**Adnoddau addysg CA3 gan Marvin Thompson**

# Ai ti yw’r Rhedwr Anhysbys?

**Beth fyddwn ni’n ei ddysgu?** Rydyn ni’n mynd i ddefnyddio’r llun o’r Rhedwr Anhysbys i edrych ar wahaniaethu (discrimination). Mae hyn yn cynnwys edrych ar degwch, caredigrwydd a chydraddoldeb. Erbyn cwblhau’r llyfryn hwn byddwch chi wedi mwynhau llawr  o weithgareddau gwahanol, gan gynnwys creu poster i drechu gwahaniaethu a ffilm fer hyd yn oed!

**Ymarfer 1:** Artist du o Brydain o’r enw Chris Ofili a greodd y llun yma. Ond pwy yw’r rhedwr? O ble maen nhw’n dod? Oes ganddyn nhw anabledd? Ydyn nhw’n ddyn, menyw, neu ddim un o’r ddau? Ydyn nhw’n hen neu ifanc? Yn hapus neu’n drist?

Atebwch y cwestiynau drwy wneud nodiadau o amgylch y llun. Meddyliwch am o leiaf 7 syniad!



**Ymarfer 2:** Er mwyn i ni ddefnyddio a deall yr un geirfa, cysylltwch y geiriau i'r disgrifiad cywir!

| | |
|---|---|
| 1) Cymdeithas | a) Trin pobl yn annheg oherwydd eu bod nhw'n wahanol i bobl eraill mewn rhyw ffordd. |
| 2) Croen | b) Y defnydd hyblyg sy'n gorchuddio eich esgyrn a'ch cyhyrau. |
| 3) Gwahaniaethu | c) Casgliad mawr o bobl sy'n byw yn yr un ardal, neu'r un wlad. |
| 4) Cydraddoldeb | d) Pan fydd rhywun ddim yn teimlo eu bod nhw'n wryw neu benyw. |
| 5) Niwtral o ran rhywedd | e) Trin pobl yn deg ac yn gydradd. |
| 6) Ystyriol | f) Teimlo'n braf i gyd tu fewn. |
| 7) Hapusrwydd | g) Meddwl am deimladau pobl cyn gwneud neu ddweud rhywbeth. |

**Answers:** 1 = c, 2 = b, 3 = a, 4 = e, 5 = d, 6 = g, 7 = f

## Gweithgaredd 1: Beth fydde chi'n ddweud?

Yn anffodus, mae pobl yn dioddef gwahaniaethu ym Mhrydain. Dyma pan fydd grwpiau o bobl yn cael eu trin yn annheg. Maen nhw'n cael eu trin yn annheg oherwydd eu rhywedd, lliw eu croen, eu crefydd, anabledd, neu resymau eraill.

Dychmygwch fod rhywun yn dioddef gwahaniaethu ar y cyfryngau cymdeithasol. Efallai y bydden nhw'n hoffi bod fel y Rhedwr Anhysbys, heb liw croen neu rywedd i wahaniaethu yn ei erbyn. Beth fyddech chi'n ddweud i godi eu calon?

**Esiampl 1: Neges cyfryngau cymdethasol 1:** Ti'n edrych yn rhyfedd. Bydden i byth eisiau edrych fel ti.

**Esiampl: Ymateb caredig:** Os taw dim ond meddyliau cas sydd gen ti, cadw nhw i dy hun. Paid barnu pobl ar sut maen nhw'n edrych!

**Neges 2:** Dwi'n credu dy fod ti'n ddiog. Fentra i fod dy deulu di i gyd yn ddiog.

**Eich ymateb caredig:**

**Neges 3:** Mae'n rhaid bod unrhywun sy'n edrych fel ti yn dwp.

**Eich ymateb caredig:**

**Neges 4:** Ai bachgen neu merch wyt ti? Dewisa un!

**Eich ymateb caredig:**

**Neges 5:** Oes gen ti anabledd? Mae'n rhaid dy fod ti'n drist. Cer adre i grio!

**Eich ymateb caredig:**

# Gweithgaredd 2: Sut fyddech chi'n teimlo?

Yn y gweithgaredd nesaf byddwch chi'n clywed am wahaniaethu a brofais i fy hun yn ifanc. Roedd yn amser pan oeddwn i'n dymuno nad oedd gen i liw croen, fel y Rhedwr Anhysbys.

Ar ôl darllen pob paragraff,  bydd cyfle i chi dynnu llun emoji i ddangos sut fydden i wedi teimlo ar y pryd. Dyma rai emojis fel ysbrydoliaeth.



# Pan brofais i wahaniaethu:

**1. Pryd ddigwyddodd hyn?** Tua pymtheg mlynedd yn ôl.
**Tynnwch lun emoji:**

**2. Beth ddigwyddodd?** Roeddwn i'n arfer gweithio mewn tafarn yn Llundain. Fi oedd yr unig aelod staff Du ar y pryd. Pan ddechreuais i weithio yno roedd rhai o'r cwsmeriaid Gwyn yn gofyn i fi 'O ble wyt tin dod?'

Un bore, pan atebais i, 'Llundain,' doedd hyn ddim yn ddigon da i un cwsmer. 'O ble wyt ti mewn gwirionedd?' gofynnodd e, ond roedd rhywbeth bygythiol am y ffordd oedd e'n gofyn. Pan ddwedais i 'Dwi'n dod o Tottenham, gogledd Llundain,' doedd e dal ddim yn hapus.
**Tynnwch lun emoji:**

**3. Sut oedden chi'n teimlo?** Roeddwn i'n teimlo'n grac ac wedi brifo. Dechreodd fy stumog gorddi a tynhaodd fy ysgyfaint. Fe wnaeth y cwsmer wneud i mi deimlo mod i ddim yn dod o Brydain, a ddylwn i ddim byw na gweithio yn Llundain.
**Tynnwch lun emoji:**

**4. Pam oedd y cwsmer yn bod yn gas?** Dwin credu bod y cwsmer, fel pob bwli, yn mwynhau gwneud i fi deimlo'n anhapus.
**Tynnwch lun emoji:**

**5. Pwy wnaeth wneud i chi deimlo'n well?** Dyma fi'n siarad â Mam a Dad am beth ddigwyddodd. Dyma nhw'n fy atgoffa i eu bod nhw wedi cael profiadau tebyg ar ôl symud i Loegr o Jamaica yn y 1960au. Roedd yn gysur eu bod nhw'n deall sut oeddwn i'n teimlo. Ond roeddwn i'n grac ac wedi drysu. Pam oedd yn rhaid i fi brofi yr un poen â'n rhieni?
**Tynnwch lun emoji:**

# Gweithgaredd 3: Ysgrifennu cerdd restr am wahaniaethu

Efallai bod rhai pobl sy'n dioddef gwahaniaethu yn dymuno bod fel y Rhedwr Anhysbys. Does ganddo ddim lliw croen, dim anabledd a dim rhywedd i bobl eu targedu.

O gofio hyn, beth am gasglu syniadau ar gyfer cerdd restr. Teitl y gerdd fydd ***Sut beth fyddai bod fel y Rhedwr Anhysbys***.

**Tasg 1:** Rhestrwch saith peth all wneud i chi wenu (mae un wedi llenwi'n barod).

1. Cwtsh mawr gan Mam-gu
2.
3.
4.
5.
6.
7.

**Syniadau:**

- Clywed sacsaffon aur
- Llyfu hufen ia siocled
- Chwerthin a chwerthin heb stop
- Dathlu sgorio gôl gyda ffrind
- Dawnsio i gerddoriaeth wyllt gyda môr-forwyn

**Fy ngherdd i:**

***Sut beth fyddai bod fel y Rhedwr Anhysbys***

Fel llyfu fy hoff hufen ia

Neu chwerthin a chwerthin heb stop

Fel dawnsio yn y tonnau gyda dolffin!

Neu ddathlu gôl gyda ffrind

**Tasg 2:** Aildrefnwch eich rhestr chi yn gerdd. Ceisiwch drefnu'r rhestr er mwyn gorffen gyda'r syniadau mwyaf emosiynol neu pwerus!

# Eich Cerdd


***Sut beth fyddai bod fel y Rhedwr Anhysbys***

# Gweithgaredd 5: Poster trechu gwahaniaethu

Gallwn ni i gyd fod yn bobl fwy caredig sy'n dathlu gwahaniaethau. Gyda'ch gwybodaeth newydd, beth am greu poster trechu gwahaniaethu. Efallai gallwch chi ddefnyddio eich poster yn y dosbarth neu o gwmpas yr ysgol!

**Syniadau:**

- Cariad at gyd-ddyn
- Cwtsh i bawb!
- Gwyliwch eich Geiriau
- Mwy o ffrindiau - Mwy o hwyl
- Gall geiriau cas frifo – byddwch yn garedig!
- Pobol yw pawb!










**Tudalen syniadau**!

**Poster terfynol!**

# Her: troi eich poster yn hysbyseb!

1) Gweithiwch mewn grwpiau o dri.
2) Ysgrifennwch sgript.
3) Gallwch chi actio fel drama...
4) ...neu ffilmio eich hun gyda llechen neu ffôn.
5) Meddyliwch am leoliad, onglau camera, goleuo a sain.
6) Mae sawl ap a rhaglen am ddim i’ch helpu chi greu hysbyseb broffesiynol.
7) Dangoswch eich hysbys i ffrindiau, teulu, neu yn y gwasanaeth ysgol!

# Pwy yw Marvin Thompson?



Ganwyd Marvin Thompson yn Tottenham, gogledd Llundain i rieni o Jamaica, ac mae bellach yn byw ym mryniau de Cymru. Mae ei gasgliad cyntaf o gerddi, *Road Trip* (Peepal Tree Press, 2020), yn un o Argymhellion y Gymdeithas Llyfrau barddoniaeth. Ym mis Mehefin 2020, dewisodd y Gymdeithas Farddoniaeth y llyfr yn un o bum llyfr sy'n ysbrydoliaeth Mae Bywydau Du o Bwys.

Roedd *Road Trip* hefyd yn un o'r 40 casgliad gafodd eu hargymell yn swyddogol ar gyfer Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth 2020. Cafodd ei ddisgrifio gan y *Guardian* fel 'taith fywiog drwy gymhlethdod bywyd teuluol Du ym Mhrydain.'

Yn 2019, roedd Marvin yn un o wyth awdur a dderbyniodd grant Llenyddiaeth Cymru fel rhan o gynllun nawdd Rhoi Llwyfan i Awduron a gaiff eu Tangynrychioli. Roedd hefyd ar restr fer Gwobr Farddoniaeth Manceinion 2019.

Yn 2016, dewiswyd Marvin Thompson Nine Arches Press ar gyfer cynllun mentora Primers. Mae ganddo radd MA mewn ysgrifennu creadigol.